nus wales
national union of students

UNDEB MYFYRWYR
Y DRINDOD DEWI SANT
TRINITY SAINT DAVID
STUDENTS' UNION

Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant ac UCM Cymru

Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant ac UCM Cymru

Cynnwys

Blaenoriaethau ein tîm ar gyfer y flwyddyn

Ein cenhadaeth

Cysylltiadau Undeb Myfyrwyr y DDS

Rhagarweiniad gan Lywydd UCM Cymru, Beth Button

Sut ydym yn datblygu ein Cynllun Gwaith

Tair thema strategol

Wyth strategaeth alluogi

Digwyddiadau UCM Cymru i'w cadarnhau

Blaenoriaethau ein tîm ar gyfer y flwyddyn

Mae Undeb Myfyrwyr y DDS yn wynebu blwyddyn anodd, yn dilyn cyfnod diweddar cythryblus sydd wedi gadael yr UM ag angen i fantoli'r cyfrifon ar fyrder ac ail-adeiladu'r berthynas â'r sefydliad.

Mae gofyniad i ni sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ein meysydd gwaith craidd; sicrhau bod ein cynrychiolaeth academaidd yn gryf a hysbys; gweithio gyda'n myfyrwyr i greu cyfleoedd iddynt ddatblygu, cymdeithasu a chreu eu profiad myfyrwyr eu hunain. Hyn oll ynghyd â gweithio i ymestyn llais a dylanwad ein myfyrwyr ymysg llunwyr penderfyniadau yn ein cymunedau, yng Nghymru a'r tu hwnt.

Byddwn yn ad-drefnu ein mudiad drwy ddatblygu cynllun strategol newydd, a thrwy sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau yn enghreifftiau o arfer gorau ac yn addas i'w pwrpas. Bydd ein strategaeth yn gyrru ein gwaith ac yn ad-drefnu ein strwythur; mae'n hanfodol ein bod yn llunio cyllideb gynaliadwy ac yn byw o fewn i'n modd.

Byddwn yn rhoi sylw penodol i gynrychiolwyr cyrsiau, gan ddangos eu heffaith ar ddiwedd y flwyddyn; byddwn yn cynyddu'r ystod a'r nifer o fyfyrwyr sy'n ymwneud â chlybiau a chymdeithasau, ac yn lansio Farsiti newydd fel rhan o'r broses hon. Byddwn yn manteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil etholiadau'r Cynulliad, gan geisio cynyddu'r nifer o bleidleiswyr a gwella dealltwriaeth ymysg ein cymuned myfyrwyr. Mae angen i ni ddod i ddeall y materion a'r syniadau sy'n bwysig iddyn nhw a herio gwleidyddion i wrando ac ymateb ar draws ein hetholaethau.

Yn ogystal â'r amcanion hyn, byddwn yn adlewyrchu brwdfrydedd ein prifysgol parthed cynaliadwyedd a phrosiectau gwyrdd, gan fynd ati i greu gwelliannau sylweddol drwy Undebau Myfyrwyr Effaith Gwyrdd.

Blaenoriaethau

1) Sefydlogi ein sefyllfa ariannol
    a. Cytuno ar gyllideb â'r Brifysgol sy'n caniatáu i ni gynnal gweithgareddau craidd
    b. Ceisio creu ychydig o arian dros ben ar ddiwedd y flwyddyn
    c. Gwneud y gorau o'n hincwm masnachol i wella ein sefyllfa
2) Datblygu cynllun strategol newydd ar gyfer y mudiad
    a. Ymgynghori a chysylltu â'n haelodaeth er mwyn datblygu cyfeiriad strategol newydd
    b. Creu cynllun sy'n cysylltu ein campysau ac yn uno'n haelodau
    c. Adeiladu strwythurau ac amcanion ar gyfer y staff o amgylch y cynllun newydd
3) Cynyddu cyfranogiad myfyrwyr
    a. Buddsoddi mewn datblygu cynllun cynrychiolwyr cwrs er mwyn sicrhau bod mwy o gynrychiolwyr yn cael eu hethol, eu hyfforddi a'u hysbysu, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
    b. Annog myfyrwyr i ddechrau gweithgaredd clybiau a chymdeithasau newydd a chynnig cefnogaeth i dimoedd ymestyn eu haelodaeth a chynnig mwy o sesiynau ar gyfer aelodau achlysurol.
    c. Gwella delwedd broffesiynol a phroffil ein hetholiadau myfyrwyr, gan estyn allan at fwy o aelodau ac esbonio eu perthnasedd a'u heffaith.
4) Gwella a datblygu cyfleusterau ar gampysau PCDDS.
    a. Nodi meysydd penodol ar gyfer gwella'r adnoddau a chyfleusterau sydd ar gael i fyfyrwyr y DDS.

b. Ysbrydoli myfyrwyr i ddefnyddio strwythurau presennol y Brifysgol a'r Undeb i lobïo am fuddsoddiad a datblygiad.
c. Helpu myfyrwyr i gymharu'r DDS â sefydliadau cyffelyb a mynnu gwelliannau i'r campws ar sail y canfyddiadau.

5) Etholiadau'r Cynulliad
   a. Gweithio i wneud etholiadau'n hygyrch a pherthnasol i'n myfyrwyr.
   b. Annog ymgeiswyr lleol i ymgysylltu â myfyrwyr sy'n mynd ati i bleidleisio a chreu cyfleoedd ar gyfer deialog ac archwiliad.
   c. Nodi materion allweddol sy'n berthnasol i PCDDS a galw ar ymgeiswyr i gefnogi ein maniffestos lleol.
6) Cynaladwyedd
   a. Gwella ein safle Effaith Gwyrdd, gan anelu at Wobr Aur.
   b. Ysbrydoli ein myfyrwyr-ar-leoliad Effaith Gwyrdd a Masnach Deg i greu newid ystyrlon ar draws y Brifysgol.
   c. Hyrwyddo canfod ffynonellau moesegol ar gyfer nwyddau a dillad drwy ein hymddygiad corfforaethol.

Ein cenhadaeth

Yma i wneud eich bywyd fel myfyrwyr yn anhygoel.

Ein tîm swyddogion llawn-amser

Abi Jenkins, Llywydd y Grŵp

✉ Abigail.jenkins@uwtsd.ac.uk

Sean Curran, Llywydd Campws Caerfyrddin

✉ s.curran@uwtsd.ac.uk

Gwyneth Sweatman, Is-Lywydd Campws Caerfyrddin

✉ g.sweatman@uwtsd.ac.uk

Lydia Watson, Llywydd Campws Abertawe

✉ Lydia.watson@uwtsd.ac.uk

Joseff Edwards, Is-Lywydd Campws Abertawe

✉ joe.edwards@uwtsd.ac.uk

Bea Fallon, Llywydd Campws Llambed

✉ b.fallon@uwtsd.ac.uk

Meg Cherry, Is-Lywydd Campws Llambed

✉ m.cherry@uwtsd.ac.uk

Manylion Cyswllt ein Huwch Aelodau Staff

Rhys Dart, Prif Weithredwr

✉ r.dart@uwtsd.ac.uk ☎: 07940 429859

Michelle Viccars, Rheolwr Cyllid

✉ m.viccars@uwtsd.ac.uk

Beth Button, Llywydd UCM Cymru

Helo! Beth Button ydw i, eich llywydd etholedig ar gyfer 2015/16. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at gael gweithio gyda chi yn ystod blwyddyn sy'n siwr o fod yn un gyffrous i fudiad y myfyrwyr yng Nghymru.

Pan ddechreuais fy nhaith ym mudiad y myfyrwyr fel cynrychiolwydd cwrs ar fy mlwyddyn gyntaf, doedd gen i ddim syniad y byddai hyn yn arwain at fod yn Llywydd UCM Cymru. Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, rydw i wedi bod yn rhan o glybiau chwaraeon, cymdeithasau a chynghorau myfyrwyr. Rydw i wedi bod yn swyddog etholedig mewn undeb myfyrwyr, a nawr mae gen i'r fraint o gynrychioli dros chwarter miliwn o fyfyrwyr ledled Cymru. Mae cael eich ethol yn swyddog myfyrwyr yn gyfle anhygoel, ac mae cael gweithio gyda phobl fel chi o ddydd i ddydd yn wir anrhydedd. Fel unigolion, bydd gennych chi wahanol resymau dros ymgeisio am eich swyddi, a gwahanol amcanion ar gyfer y flwyddyn. Ond p'un ai rydych chi'n swyddog chwaraeon sabothol neu'n swyddog addysg, rydych chi i gyd yn unedig mewn bod yn rhan o fudiad ehangach y myfyrwyr, ac o'r mudiad democrataidd mwyaf yng Nghymru.

Sefydlwyd UCM Cymru yn 1974, a bu'n ymgyrchu dros ddatganoli i Gymru am flynyddoedd lawer ac yn pwyso'n galed am bleidlais IE yn refferendwm 1997. Heddiw, mae gennym berthynas weithio adeiladol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae'r berthynas hon yn ofer os nad ydym yn cysylltu â chi, yr undebau myfyrwyr sy'n aelodau.

Mae sawl her yn ein hwynebu yng Nghymru yn y dyfodol, heriau a fydd yn effeithio ar fyfyrwyr fel pobl ac yn mynd y tu hwnt i faterion sy'n effeithio'n ddwys, ac weithiau dim ond, ar fudiad y myfyrwyr a'n cefnogwyr. Mae ein haelodaeth yn newid yn gyflym, mae myfyrwyr yn wynebu bygythiadau sy'n wahanol iawn i'r rheiny roedd eu rhagflaenwyr yn eu hwynebu yn 1974, ac efallai mai'r hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r ffaith bod dyfodol pobl ifanc yng Nghymru ymhell o fod yn ddiogel.

"Mewn cyfnod o heriau rhaid i ni fod yn rhan o'r ateb"

Dylai eich blaenoriaethau wastad ffurfio rhai UCM Cymru drwy ein prosesau democrataidd, ond mae angen i ni ganfod ffyrdd gwell o uno ein blaenoriaethau lleol a chenedlaethol er mwyn creu gweithredu a newid cadarnhaol gydol y flwyddyn. Rydw i am i ni alluogi undebau myfyrwyr i ennill yn lleol, ar eu campws ac oddi arno, a sicrhau bod UCM Cymru'n gweithio mewn partneriaeth wirioneddol â chi.

Bwriad y cynllun gwaith hwn yw gosod eich undebau myfyrwyr a'u haelodau wrth graidd gwaith UCM Cymru dros y 12 mis nesaf a'r tu hwnt. Tra byddwn yn parhau i lobïo ar eich rhan yn genedlaethol, mae hefyd angen i ni sicrhau ein bod yn cysylltu â chi ynghylch y materion hyn er mwyn sicrhau bod gennym y dystiolaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol fel sail i gynnal ymgyrchoedd llwyddiannus. Dros y blynyddoedd, mae UCM Cymru wedi bod wrthi'n sicrhau buddugoliaethau ar eich rhan, drwy gyd-drafod â llunwyr penderfyniadau a gweithredu ar y materion hynny a godir yng Nghynhadledd UCM Cymru. Serch hynny, rydw i am gynnig newid yn ein hymagweddiad eleni; rydw i'n awyddus i ni ennill gyda'n gilydd, nid dim ond ar eich rhan. Credaf, yn y bon, ei bod yn rhoi llawer mwy o bŵer i fyfyrwyr a swyddogion myfyrwyr ddeall a chydnabod y rôl maent yn ei chwarae, pan fyddwn yn ennill ar faterion fel mudiad myfyrwyr, ac mae angen i ni fod yn well am sylweddoli'r cyfraniad rydym yn ei wneud ar y cyd â myfyrwyr i wella cymdeithas. Mae undebau myfyrwyr ledled Cymru eisoes yn gwneud pethau anhygoel, ac maent yn chwarae eu rhan yn ardderchog; yr hyn sydd angen i ni ei wneud nawr yw harneisio'r gweithgaredd yma, ac rydw i'n gobeithio bydd y cynllun gwaith hwn yn rhoi llwyfan i ni ddechrau gwneud hynny.

Er enghraifft, dychmygwch gymdeithas lle gwelir myfyrwyr fel arweinwyr yn eu cymunedau, lle cawn ein hystyried fel grym er lles pawb a bod ein gwaith ymgyrchu'n creu Cymru sy'n fwy cymdeithasol lewyrchus. Dychmygwch fudiad myfyrwyr sy'n cyd-weithio, yn rhannu arbenigedd a thrwy weithredu ar y cyd, sy'n rhy bwerus i'w anwybyddu, a dychmygwch system addysg wedi ei llunio gan fyfyrwyr yn trefnu ar lefel leol a chenedlaethol.

Gydag etholiadau'r Cynulliad ar y gorwel, mae angen i ni addysgu ac ysgogi ein myfyrwyr ar gyfer yr hyn a allai fod yr etholiadau mwyaf arwyddocâol i Gymru ers blynyddoedd maith. Gyda chyllido ein system addysg mewn perygl, bygythiadau o doriadau pellach i'r sector gyhoeddus gan San Steffan, ac argyfwng costau byw yn gwthio myfyrwyr i dlodi, mae'n hanfodol ein bod ni'n manteisio ar y cyfle hwn i ymgyrchu a dylanwadu ar lunwyr penderfyniadau parthed y materion pwysicaf. Fe awn ati i wneud hyn drwy sicrhau bod ein hagenda'n cael lle blaenllaw ym maniffestos y pleidiau, a thrwy gynnwys myfyrwyr mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn rhan o fudiad myfyrwyr unedig sy'n ymgyrchu.

Sut ydyn ni'n datblygu ein cynllun gwaith

Mae UCM Cymru yn gyd-ffederasiwn o undebau myfyrwyr sy'n cynrychioli dros 320,000 o fyfyrwyr addysg bellach ac uwch ledled y wlad.

Mae UCM Cymru yn hyrwyddo, amddiffyn ac ymestyn hawliau myfyrwyr, yn ogystal â datblygu a chefnogi undebau myfyrwyr cadarn. Rydym yn brwydro yn erbyn rhwystrau i addysg; rhoi grym i fyfyrwyr i ffurfio profiad dysgu o ansawdd uchel a'r byd o'u cwmpas; yn ogystal â chynorthwyo undebau myfyrwyr dylanwadol, democrataidd sydd ag adnoddau digonol.

Prif werthoedd UCM Cymru yw democratiaeth, cydraddoldeb a chyfunoliaeth. Rydym yn gweithredu o fewn strwythur tryloyw a democrataidd sy'n galluogi myfyrwyr i osod ein hagenda. Bob blwyddyn yng Nghynhadledd UCM Cymru, mae cynrychiolwyr myfyrwyr o bob undeb myfyrwyr sy'n aelod yn trafod ac yn pleidleisio ar y polisïau maent am eu gweld ym mhortffolio UCM Cymru. Hefyd, maent yn ethol eu pwyllgor gwaith cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ganlynol; y rhain yn y pen draw sy'n gyfrifol am roi'r polisïau hyn ar waith. Mae proses debyg yn digwydd yn ein cynadleddau rhyddhad ar gyfer myfyrwragedd, myfyrwyr LHDT, croenddu, Cymraeg eu hiaith ac anabl. Maent i gyd yn ymgyrchoedd hunan-reolus sy'n derbyn adnoddau a chefnogaeth gan UCM Cymru.

Er bod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru a'r Pwyllgorau Rhyddhad yn atebol am y polisïau hyn, mae gan UCM Cymru ac undebau myfyrwyr ledled y wlad gyfrifoldeb i sicrhau bod y polisïau hyn yn rhoi llwyfan ar gyfer creu newid yn y gymdeithas Gymreig ac yn y system addysg.

Mae cyfeiriad polisi a maniffestos swyddogion etholedig yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud, serch hynny rydym yn gweithredu mewn amgylchedd democrataidd lle caiff swyddogion myfyrwyr mewn undebau myfyrwyr eu mandadu i roi blaenoriaethau ar waith yn eu hardaloedd, blaenoriaethau nad ydynt weithiau'n cydfynd yn llwyr â'r rheiny a basiwyd yng Nghynhadledd UCM Cymru. Felly mae'n hanfodol bod UCM Cymru'n gweithio gydag undebau myfyrwyr i gefnogi blaenoriaethau lleol gan sicrhau ein bod ni'n trefnu'n effeithiol o amgylch ymgyrchoedd cenedlaethol yn ogystal â'r agendas rydym yn ceisio dylanwadu arnynt.

O ganlyniad i hyn, mae angen i ni ystyried y ffactorau canlynol wrth ddatblygu ein cynllun gwaith ochr-yn-ochr â'n cyfeiriad polisi.

- Blaenoriaethau strategol i undebau myfyrwyr
- Maniffestos y swyddogion etholedig ar lefel leol
- Deddfwriaeth arfaethedig a all effeithio ar fywyd myfyrwyr
- Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwaith UCM Cymru ac UCM DU, gan gynnwys prosiectau a ariennir yn allanol fel Wise Cymru.
- Cyfranogiad mewn prosesau ymgynghori
- Digwyddiadau cenedlaethol sydd i ddod, er enghraifft Etholiadau'r Cynulliad.
- Mentrau yn y sector sydd angen ymateb neu weithredu
- Digwyddiadau eraill, fel arfer rhai annisgwyl, sy'n mynnu amser ac adnoddau UCM Cymru
- Ymrwymiad UCM Cymru i'r iaith Gymraeg a'r dyhead i'w chynnwys ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Rydym, wrth gwrs, yn galw am gefnogaeth gan gyd-weithwyr yn UCM DU, UCM-UMI ac UCM yr Alban pryd bynnag fo hynny'n bosibl. Gall undebau myfyrwyr hefyd gael mynediad i gefnogaeth gan wahanol arbenigwyr ar draws Grŵp UCM, boed yn ymwneud ag ymgyrchu a dylanwadu, cefnogaeth i'w hundeb myfyrwyr neu weithgareddau menter.

Tair thema strategol

Mae cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am waith mudiad y myfyrwyr yn rhywbeth rydym yn gobeithio bod swyddogion myfyrwyr i gyd yn gytun arno, ond yn bwysicach na hynny, yn credu ynddo. Fel tîm swyddogion etholedig llawn-amser UCM Cymru, ein hamcan yw arwain trwy esiampl, gan sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd fel tîm swyddogion llawn-amser. Byddwn yn gwneud ein gorau i gefnogi a galluogi aelodau o Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru i gyflawni ein hamcanion, ac yn helpu swyddogion undebau myfyrwyr a myfyrwyr i greu newid yn eu hardaloedd.

Er mwyn gwireddu ein potensial fel mudiad myfyrwyr, mae angen i ni wneud y gorau o'n hadnoddau a buddsoddi amser yn y materion hynny sydd o bwys i fyfyrwyr ac undebau myfyrwyr. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae angen i ni fynd y tu hwnt i weithredu ein mandadau democrataidd unigol fel swyddogion, drwy gymryd cyfrifoldeb am waith UCM Cymru'n gyffredinol, ac eleni rydym wedi cytuno i arwain ar wahanol elfennau o'r wyth strategaeth alluogi ar gyfer UCM Cymru.

Wrth gwrs, byddwn yn parhau i fod yn atebol am y gwaith yr etholwyd ni i'w gyflawni, ond os ydym o ddifrif ynglŷn ag adeiladu mudiad sy'n seiliedig ar gyfunoliaeth a gweithio ar y cyd, yna mae angen i ni, eich swyddogion etholedig cenedlaethol, osod esiampl. Yn ogystal â'n hymagweddiad at ein gwaith fel tîm swyddogion llawn amser, rydym am fod yn rhan o Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru ehangach, sydd hefyd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb. Dylai fod yn bwyllgor sydd â'r grym a'r gefnogaeth i'ch cynrychioli'n genedlaethol, yn ogystal â gweithredu swyddogaethau'n lleol, boed fel swyddog sabothol cyflogedig llawn-amser neu fel myfyriwr. Mae hefyd angen i ni ymgysylltu a gweithio'n fwy clòs â'n gwirfoddolwyr a'n pwyllgorau rhyddhad os ydym yn mynd i gyfranogi'n llwyddiannus mewn trafodaethau ac ymgynghoriadau cymdeithasol sy'n effeithio ar fyfyrwyr fel pobl, gan ennill ar y materion hynny sydd o bwys iddyn nhw ac i Gymru fel gwlad. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithio gyda'n holl bwyllgorau a sicrhau bod ganddynt y lefel briodol o fynediad a chefnogaeth gan UCM Cymru, ein partneriaid a'n cefnogwyr.

Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod a'r rôl y gallwn ei chwarae o ran helpu i drawsnewid ein dulliau gweithredu fel mudiad myfyrwyr yng Nghymru. Serch hynny, ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain, fyddwn ni ddim wastad yn cytuno, a fyddwn ni ddim yn ei gael yn iawn bob tro. Dyma pam mae undebau myfyrwyr mor allweddol a chanolog i'n hymagwedd yng Nghymru. Drwy weithio gyda chi, byddwn yn gryfach a byth yn unig. Drwy anghytuno y daw dadl iach a phenderfyniadau gwell ac wrth ddysgu drwy gamgymeriadau y caiff ein gwerthoedd a'n diben eu deall heb eu newid.

Fel tîm swyddogion, rydym wedi gosod ein dull o weithredu ar gyfer y flwyddyn, a dyma'r cwestiwn i chi - Pa rôl fyddwch chi'n ei chwarae mewn creu gwell addysg, gwell cymdeithas a gwell mudiad myfyrwyr?





Diben y themâu strategol yw sicrhau y caiff ein holl waith yn UCM Cymru ei alinio i'n prif ddiben fel mudiad a darparu cyd-destun trosfwâol ynglŷn â sut mae ein gweithgareddau'n addas. Dylai ein holl weithgaredd, egni a bwriad gyfrannu at gyflawni'r tair thema strategol yma. Er mwyn sicrhau bod UCM Cymru'n parhau i ganolbwyntio ar fyfyrwyr, bydd gan bob undeb myfyrwyr gynllun gwaith wedi ei deilwra ar eu cyfer, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol ynghyd â'r gwaith rydym wedi ein mandadu i'w wneud yn genedlaethol drwy ein prosesau penderfynu democrataidd.

Nodwyd y tair thema strategol fel a ganlyn:

Gwell addysg

Mae UCM Cymru'n credu y dylai myfyrwyr gael mynediad i bob ffurf o ddysgu ac addysg, yn ogystal â'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd sy'n mynd i wella eu bywyd. Ystyrir bod llais myfyrwyr yn gredadwy a hysbys ar yr holl faterion sy'n ymwneud ag addysg, ac mae'n helpu i lunio profiad myfyrwyr.

Gwell cymdeithas

Ystyrir myfyrwyr i fod yn arweinwyr yn eu cymunedau, yn hytrach na thwristiaid dros-dro. Caiff myfyrwyr eu gweld fel aelodau allweddol a rhagweithiol o'r gymuned leol, ranbarthol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae myfyrwyr yn effeithiol o ran cydweithredu ar ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol sydd o bwys i'w cyfoedion ac i'r gymdeithas yn gyffredinol. Mae llunwyr penderfyniadau'n cydnabod, yn parchu ac yn gweithredu ar ymgyrchoedd a arweinir gan fyfyrwyr, gan osod gwerth ar farn, safbwynt ac arbenigedd myfyrwyr ar faterion sy'n effeithio ar Gymru, y DU a'r gymuned ryngwladol. Bydd mudiad y myfyrwyr yn gweithio gyda chenedlaethau ieuengach i ddatblygu arweinwyr y dyfodol a helpu i ddarparu cyfleoedd na fyddai o bosib yn bodoli fel arall.

Gwell mudiad myfyrwyr

Mae UCM Cymru ac undebau myfyrwyr yn cydweithio, ac mae modd iddynt fynegi effaith a dangos ein gwerth, gan felly cynyddu ein dylanwad drwy gydweithio â phartneriaid a chefnogwyr. Mae'n hawdd i aelodau cymdeithas weld beth yw rôl undebau myfyrwyr mewn cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gydnabod mudiad y myfyrwyr yng Nghymru fel llais ymgyrchu sy'n rhy bwerus i'w anwybyddu.

Wyth strategaeth alluogi

Er mwyn cyflawni ein tair thema strategol, mae UCM Cymru wedi dyfeisio **wyth strategaeth alluogi**. Mae'r strategaethau hyn yn adlewyrchu'r amgylchedd allanol, adborth gan yr aelodaeth a mewnbwn gan staff a swyddogion UCM Cymru. Mae'r wyth strategaeth yn cwmpasu polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd UCM Cymru a materion a flaenoriaethwyd gan arweinyddiaeth etholedig y mudiad.

Pennir prif aelod staff ar gyfer pob strategaeth alluogi; bydd yr unigolyn hwn yn gyfrifol am gydlynu'r gweithgaredd, yn ogystal â gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i'r aelodaeth ar gyfer y maes gwaith hwnnw. Yn yr un modd, bydd pob swyddog llawn amser etholedig yn cymryd cyfrifoldeb am gymysgedd o arwyddion perfformiad allweddol a gweithrediad effeithiol pob strategaeth. Mae aelodau PGC UCM Cymru hefyd wedi cael eu pennu i bob strategaeth alluogi fel pwynt cyswllt a chefnogaeth ar gyfer undebau myfyrwyr.

Dyma'r wyth strategaeth alluogi:

- Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gweithredu drwy'r Gymraeg
- Hawliau Myfyrwyr - Myfyrwyr fel arweinwyr, myfyrwyr fel pobl
- Trawsffurfio'r cwricwlwm
- Ymgysylltiad ieuenctid a chyfleoedd i fyfyrwyr
- Adolygiad o AU (Adolygiad Diamond)
- Wise Cymru
- Cynllun Gwaith – cysylltu â'r aelodaeth



Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Amcan y strategaeth hon yw sicrhau bod myfyrwyr yng Nghymru'n deall perthnasedd etholiadau'r Cynulliad i'w bywyd. Gyda chynifer o feysydd allweddol fel addysg ac iechyd wedi eu datganoli, rydym am sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu â'r etholiad er mwyn sicrhau y caiff eu llais ei glywed. Heb y sylw a roddwyd i'r Etholiad Cyffredinol ledled y DU, bydd angen i ni sicrhau nad yw pobl yn diflasu â'r etholiad, gan sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i fod yn rhy bwerus i'w hanwybyddu ynghylch y materion hynny sy'n effeithio arnynt.

Polisïau byw sy'n berthnasol i'r strategaeth hon

- Mae'n amser am ymgyrch tai
- Arian yn yr Atig
- Tai myfyrwyr – mae angen ymgyrch genedlaethol ar broblem genedlaethol
- Datganoli sy'n gweithio ar gyfer Cymru
- Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru
- Mae Cymru angen system fenthyciadau ar gyfer ôl-raddedigion
- Nid yw LCA a GDLlC yn ddigon da!
- Cyllido Ôl-19
- Dallbleidwyr a Phleidleisio
- Nid yw tocynnau bws yn fargen dda rhagor
- Adolygiadau cyllido a'r ffordd ymlaen
- Brwydro'r dde eithafol ledled Cymru
- Trefnu nawr i ennill yfory
- Annog myfyrwyr i bleidleisio
- Amddiffyn yn erbyn y toriadau i Addysg Bellach yng Nghymru

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud fel mudiad

Bydd UCM Cymru'n datblygu ystod o ddeunydd addysgol i wella dealltwriaeth myfyrwyr o berthnasedd Etholiadau'r Cynulliad, ynghyd â llunio pecyn o weithgareddau y gellir eu hefelychu ledled y wlad er mwyn sicrhau diddordeb myfyrwyr yn y broses etholiadol.

Gan ddefnyddio polisïau a basiwyd yng nghynhadledd UCM Cymru, byddwn yn datblygu maniffesto cryno a sicrhau y caiff yr holl bethau rydym yn gofyn amdanynt yn eu codi mewn cyd-drafodaethau â phleidiau gwleidyddol. Bydd elfen allweddol o'r gwaith yma'n cynnwys lobïo'r holl bleidiau i lunio maniffesto ieuenctid i helpu sicrhau dyfodol pobl ifanc yng Nghymru, gan ffurfio clymblaid o fudiadau ieuenctid er mwyn ymestyn cyrhaeddiad ein gwaith ymgysylltu gwleidyddol.

Byddwn yn dyfeisio ac yn cyflwyno cynlluniau ymgyrchu i ostwng yr oedran ar gyfer pleidleisio, gosod gorsafoedd pleidleisio ar gampysau, ac ymestyn y trefniadau etholiadol presennol lle bynnag bo hynny'n bosib.

Bydd Tîm Swyddogion UCM Cymru'n gweithio gyda chi i wneud y canlynol:

- Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n troi allan i bleidleisio o gymharu ag Etholiad y Cynulliad yn 2011
- Sicrhau bod gennym raglen weithgareddau ar gyfer cyfranogiad yn Etholiad y Cynulliad ym mhob Undeb Myfyrwyr
- Cysylltu undebau myfyrwyr â phob un o bwyllgorau rhyddhad UCM Cymru er mwyn sicrhau ymgyrchu llwyddiannus sy'n perthyn yn benodol i weithgaredd y Cynulliad Cenedlaethol

- Cynyddu'r sylw a roddir i ni yng Nghymru o gymharu ag ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol
- Codi proffil mudiad y myfyrwyr ymhlith pleidiau gwleidyddol er mwyn sicrhau bod materion myfyrwyr yn rhan annatod o ymgyrchoedd y pleidiau drwy groes gyfeirio maniffesto UCM Cymru yn erbyn maniffestos y pleidiau, nifer y maniffestos ieuenctid a gynhyrchwyd a'r clymbleidiau o randdeiliaid a ffurfiwyd

Cysylltydd Staff UCM Cymru:

Claire O'Shea, Rheolwr Cyfathrebu a Strategaeth

claire.oshea@nus-wales.org.uk

07584 631 232

Cysylltyddion PGC UCM Cymru:

Charlie Skinner – charlie.skinner@nus-wales.org.uk
Robiu Salisu – robiu.salisu@nus-wales.org.uk
Siôn Davies – sion.davies@nus-wales.org.uk
Sarah Lynn – sarah.lynn@nus-wales.org.uk

Yr hyn bydd fy undeb myfyrwyr yn ei wneud....

Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gweithredu drwy'r Gymraeg

Mae atgyfnerthu safle'r Gymraeg yn strategaeth alluogi allweddol ar gyfer UCM Cymru, gan ei bod yn elfen sy'n perthyn i bopeth rydym yn ei wneud. Mae'r strategaeth yn un a ddylai wella mynediad i wasanaethau Cymraeg mewn ffordd fodern, gan gwmpasu sianelau fel Facebook a Twitter. Dylai Gair Cymraeg geisio bod yn flaengar a pharhau i fod ar flaen y gad o ran yr iaith a ddefnyddir gan UCM Cymru ac UCM DU.

Polisïau byw sy'n berthnasol i'r strategaeth hon

- Sefydlu cronfa ar gyfer ymgyrch yr iaith Gymraeg
- Cynyddu Darpariaeth y Gymraeg mewn AB ac AU
- Cydweithio ar Siartr yr Iaith Gymraeg
- Cefnogaeth i Gymdeithasau Cymraeg
- Cyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg
- Rali a Rwdlan
- Hoffwn i ddiolch i
- Cyfarwyddwr Myfyrwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cynllun ABC: Addysg bellach gyfrwng-Cymraeg
- Cydnabyddiaeth o fewn UCM
- Swyddog llawn-amser

Yr hyn rydym yn ei wneud yn UCM Cymru

Yn fewnol, mae UCM Cymru'n gweithio i wella dwyieithrwydd ar draws Grŵp UCM drwy ddatblygu polisi dwyieithog i'w fabwysiadu gan UCM DU.

Ynghyd â hyn, ac er mwyn helpu i atgyfnerthu'r Gymraeg o ran popeth rydym yn ei wneud yn UCM Cymru, rydym yn datblygu cynllun busnes ar gyfer Gair Cymraeg, sef ein Huned Gyfieithu. Yn ogystal â chyfieithu defnyddiau UCM Cymru, mae Gair Cymraeg yn cynnig gwasanaethau cyfieithu i undebau myfyrwyr a mudiadau allanol.

Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth i'r ymgyrch iaith Gymraeg hunan-reolus drwy gynnal dau ddiwrnod hyfforddi ar sut i wneud y gorau o'r Gymraeg mewn undebau myfyrwyr.

Bydd Tîm Swyddogion UCM Cymru'n gweithio gyda chi i wneud y canlynol:

- Cynhyrchu ein holl waith yn ddwyieithog yng Nghymru, yn ogystal ag yng ngweddill y DU.
- Ystyried ymhellach oblygiadau undebau myfyrwyr i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, gan dderbyn o leiaf 3 astudiaeth achos o sut wnaeth Gair Cymraeg helpu undebau myfyrwyr i wella eu harfer
- Datblygu rôl Swyddogion yr Iaith Gymraeg ym mhob undeb, a'u mesur drwy 3 tystlythyr cadarnhaol

Cysylltydd Staff UCM Cymru:

Claire O'Shea, Rheolwr Cyfathrebu a Strategaeth

claire.oshea@nus-wales.org.uk

07584 631 232

Cysylltydd PGC UCM Cymru:

Siôn Davies – sion.davies@nus-wales.org.uk

Yr hyn bydd fy undeb myfyrwyr yn ei wneud....

Gweithredu drwy'r Gymraeg

Hawliau Myfyrwyr - Myfyrwyr fel arweinwyr, myfyrwyr fel pobl

Dylai'r strategaeth hon gynorthwyo gweithgareddau ymgyrchu UCM Cymru a gwella safbwynt y cyhoedd o fyfyrwyr a'u gwerth yn y gymdeithas. Bydd ymgyrchoedd rhyddhad yn cael eu cynorthwyo i fod yn ddylanwadol y tu mewn a thu hwnt i fudiad y myfyrwyr drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a dylanwadu ar ddatblygiadau o fewn iddo. Bydd y strategaeth hon hefyd yn hanfodol ar gyfer cynorthwyo datblygiadau polisi yn UCM Cymru yn y dyfodol.

Polisïau Byw sy'n berthnasol i'r strategaeth hon

- Holl bolisïau rhyddhad UCM Cymru
- Mae'n amser am ymgyrch tai
- Tai myfyrwyr – mae angen ymgyrch genedlaethol ar broblem genedlaethol
- Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru
- Mae myfyrwyr yn ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd
- Diddymu troseddau casineb yng Nghymru
- Creu mandad i weithredu ar y LMA
- Partneriaethau Cymunedol - mwy nag ymadrodd poblogaidd
- Tlodi Myfyrwyr
- Undebau teg a hygyrch

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud fel mudiad

Mae angen i ni ddatblygu sianelau cyfryngau cymdeithasol sy'n ysgogi a chanfod ffyrdd gwell i'r grwpiau hyn o fyfyrwyr gyfranogi yng ngwaith UCM Cymru ac undebau myfyrwyr, ac yn y broses, canfod pa gymorth sydd ei angen arnynt i fod yn effeithiol.

Drwy wella'r sianelau ymgysylltu hyn, mae angen i ni gynorthwyo'r ymgyrchoedd rhyddhad i gyfrannu at ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a dadleuon cyhoeddus eraill sy'n effeithio ar eu hymgyrch neu sy'n berthnasol iddi. O ganlyniad i wneud hyn, gallwn wella'r cylch datblygu polisïau, cynyddu cyfranogiad pellach ymysg myfyrwyr a chreu ymgyrchoedd rhyddhad cryf a bywiog mewn undebau myfyrwyr.

I wneud y gorau o'n potensial a gwella ein tebygolrwydd o ennill ar faterion allweddol, mae angen i ni ddatblygu partneriaethau effeithiol â mudiadau o feddwl tebyg, er enghraifft sicrhau llwyddiant digwyddiadau fel Hawlio'r Nos yn Ôl drwy weithio ag elusennau eraill sy'n gweithio er menywod.
Ynghyd â'n hymgyrchoedd rhyddhad, mae angen i ni sicrhau bod ein gwaith ymgyrchu arall sy'n effeithio ar fyfyrwyr a'r rheiny nad ydynt yn fyfyrwyr yn cael ei fframio mewn ffordd sy'n dangos sut mae myfyrwyr yn arwain ar faterion sydd er lles pawb. Bydd hyn yn helpu gwella barn pobl ac yn datblygu ein cynghreiriau a sylfaen ein cefnogwyr.

Bydd Tîm Swyddogion UCM Cymru'n gweithio gyda chi i wneud y canlynol:

- Codi presenoldeb ymhob Cynhadledd Ryddhad Cymru
- Cynnal tri diwrnod hyfforddi traws-ryddhad rhanbarthol a chreu 'cronfa weithgareddau' y mae swyddogion rhyddhad yn bwriadu eu defnyddio yn eu hundebau myfyrwyr o ganlyniad i'r hyfforddiant
- Ffurfio partneriaethau newydd ag elusennau a mudiadau allanol sydd ag amcanion tebyg
- Gwella proffil yr ymgyrchoedd drwy gyfryngau traddodiadol a chymdeithasol
- Sicrhau y caiff yr holl ymgyrchoedd rhyddhad eu cynrychioli drwy weithgareddau cyn yr Etholiad Cyffredinol, er enghraifft hystungau Twitter.

Swyddogion Rhyddhad UCM Cymru:

Rosie Inman, Swyddog Menywod UCM Cymru – rosie.inman@nus-wales.org.uk
Sarah Lynn, Swyddog LHDT+ - sarah.lynn@nus-wales.org.uk
Carly Stewart, Swyddog LHDT+ – carly.stewart@nus-wales.org.uk
Diana Isajeva, Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau (MagA) – diana.isajeva@nus-wales.org.uk
Siôn Davies, Swyddog yr Iaith Gymraeg – sion.davies@nus-wales.org.uk
Akosva Darko, Swyddog y Myfyrwyr Croenddu – akosva.darko@nus-wales.org.uk
Shrouk el-attar, Swyddog y Myfyrwyr Rhyngwladol – shrouk.el-attar@nus-wales.org.uk

Cysylltydd Staff UCM Cymru:

Claire O'Shea, Rheolwr Cyfathrebu a Strategaeth

claire.oshea@nus-wales.org.uk

07584 631 232

Cysylltyddion PGC UCM Cymru:

Sarah Lynn – sarah.lynn@nus-wales.org.uk
Ryan Davies – ryan.davies@nus-wales.org.uk
Lydia Richardson **–** Lydia.richardson@nus-wales.org.uk
Shrouk el-attar – shrouk.el-attar@nus-wales.org.uk

Yr hyn bydd fy undeb myfyrwyr yn ei wneud....

Hawliau Myfyrwyr

Trawsffurfio'r Cwricwlwm

Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar ddatblygu polisïau UCM Cymru a hyrwyddo gweledigaeth ddealladwy ynglŷn â sut ddylai'r cwricwlwm cenedlaethol weithredu er budd myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o sefydlu sylfaen ymchwil ar gyfer ffurfiau newydd o ddysgu, ymgyrchu i gynnwys gwerthoedd ymgyrchoedd rhyddhad yn y prif gwricwlwm ac ymgyrchu i roi egwyddorion sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr ar lefel ysgolion ac addysg alwedigaethol / ôl-16.

Polisïau Byw sy'n berthnasol i'r strategaeth hon

- Cymwysterau Cymru a'r Fagloriaeth Gymreig
- Gad i ni siarad am ryw, cariad
- Rhyddhad Cwricwlwm

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud fel mudiad

Mae'n hanfodol ein bod ni'n cynorthwyo ac yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o ddinasyddion Cymreig y tu fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Er mwyn cael Cymru gymdeithasol ffyniannus, mae angen i ni edrych ar fodelau addysg gwahanol yng Nghymru; modelau sy'n gallu mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion allweddol a gwella cyfleoedd i fyfyrwyr.

Byddwn yn gwneud hyn drwy gyflwyno adroddiad ymarferoldeb o ddysgu ar sail problemau, a sut mae hyn yn cymharu â modelau eraill fel addysg i ddinasyddion. Hefyd, mae angen i ni greu strategaeth glir a dealladwy ar sut i wneud y gorau o lais UCM Cymru o ran drafftio canllawiau ar addysg berthnasau iach, yn ogystal â chreu a hyrwyddo polisi i integreiddio a hyrwyddo addysg gyfrwng-Cymraeg ar bob lefel oedran.

Mae gan UCM Cymru nifer o bolisïau o ran cymwysterau a byddwn yn gweithio'n agos ag undebau myfyrwyr i drefnu ein hymagwedd o ran cynrychioli'r farn hon a'i chyflwyno i'r llywodraeth.

Bydd Tîm Swyddogion UCM Cymru'n gweithio gyda chi i wneud y canlynol:

- Sefydlu sylfaen ymchwil ar fabwysiadu ymagwedd ddysgu ar sail problemau a chreu adroddiad sy'n manylu ar ymarferoldeb mabwysiadu ymagwedd o'r fath yng Nghymru
- Hyrwyddo ac ymgyrchu i estyn darpariaeth addysg lythrennedd ariannol mewn ysgolion ac addysg ôl-19 a sicrhau ymrwymiadau gwleidyddol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad
- Siapio a ffurfio strategaeth ddylanwadu UCM Cymru i ymgorffori mesurau cryf ar gyfer addysg berthnasau iach a chydsyniad yn y cwricwlwm ysgol, yn dilyn addewid i ddrafftio canllawiau cyn pasio'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Ysgogi myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, ar y cyd ag ymgyrch yr iaith Gymraeg, drwy arolygon a gwaith ymgynghori er mwyn creu polisi ynghylch darpariaeth addysg gyfrwng-Cymraeg ar lefel ysgol, coleg a phrifysgol
- Drafftio a chyflwyno cyfres o bwyntiau gweithredu ynghylch cymwysterau galwedigaethol ac addysg bellach, gan gynnwys prentisiaethau, i Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar hygrededd a hyblygrwydd y Fagloriaeth Gymreig a chymwysterau galwedigaethol.

Cysylltydd Staff UCM Cymru:

Graham Henry, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus

graham.henry@nus-wales.org.uk

07970 296 538

Cysylltyddion PGC UCM Cymru:

Charlie Skinner – charlie.skinner@nus-wales.org.uk
Robiu Salisu – robiu.salisu@nus-wales.org.uk
Sarah Lynn – sarah.lynn@nus-wales.org.uk
Diana Isajeva – diana.isajeva@nus-wales.org.uk

Yr hyn bydd fy undeb myfyrwyr yn ei wneud....

Trawsffurfio'r cwricwlwm

Ymgysylltiad ieuenctid a chyfleoedd i fyfyrwyr

Bydd y strategaeth hon, sy'n rhan hanfodol o ddyfodol hir-dymor UCM Cymru, yn ceisio datblygu arweinwyr mudiad y myfyrwyr at y dyfodol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc ar ffurf mentrau cefnogaeth leol, partneriaeth a gweithgareddau llais myfyrwyr. Bydd y strategaeth hon yn rhoi cyfleoedd ymarferol i bobl ifanc ymgysylltu â chymdeithas yng Nghymru, materion datganoledig a gweithgareddau undeb myfyrwyr. Bydd UCM Cymru'n gweithio gyda mentrau allgymorth perthnasol, gweithwyr ieuenctid a fframweithiau priodol i ennyn diddordeb cenhedlaeth newydd o ymgyrchwyr yng Nghymru drwy ddarparu lle tu allan i'r ystafell ddosbarth i ddatblygu sgiliau dinasyddiaeth.

Polisïau Byw sy'n berthnasol i'r strategaeth hon

- Rhoi'r ffync yn ôl i'r Ddraig
- Datganoli sy'n gweithio ar gyfer Cymru
- Annog myfyrwyr i bleidleisio
- Dallbleidwyr a Phleidleisio
- Partneriaethau Cymunedol - mwy nag ymadrodd poblogaidd
- Brwydr pobl ifanc am swyddi
- Lles myfyrwyr yn y brifysgol

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud fel mudiad

Cyfrannu at ymgyngoriadau perthnasol o amgylch ymgysylltiad ieuenctid, er enghraifft 'fforymau ieuenctid sirol' a 'dyfodol y ddraig ffynci'. Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i greu naratif a fydd yn dylanwadu ar weithrediad Fframwaith Ymgysylltiad Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn cynyddu ein gallu i ddylanwadu drwy greu cronfa ddata o gysylltiadau ymhlith mudiadau ieuenctid, gan ffurfio clymblaid sy'n seiliedig ar waith UCM Cymru ac undebau myfyrwyr. Er enghraifft, bydd ymgysylltu â gwaith Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc yn allweddol mewn datblygu sgiliau arweinyddiaeth a dinasyddiaeth yn ystod y blynyddoedd cynnar, gan helpu pobl ifanc i fod â llais ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymunedau - mae gan undebau myfyrwyr rôl sylweddol i'w chwarae mewn gweithredu'r strategaeth hon, yn seiliedig ar anghenion lleol a chymunedol yr ardaloedd hynny.

Bydd UCM Cymru'n gweithio gydag undebau myfyrwyr i ffurfio partneriaethau lleol a rhanbarthol o amgylch gwaith/llais ieuenctid er mwyn cynyddu gweithgaredd ymgyrchu rhanbarthol, gan weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion a cholegau. Hefyd darparu cyfleoedd megis clybiau ar-ôl-ysgol drwy glybiau a chymdeithasau a/neu gymdeithasau academaidd, neu ddarparu lleoliad mewn adeiladau undebau ar gyfer gweithgareddau ieuenctid. Bydd unrhyw beth y gall undebau ei wneud i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc nawr yn helpu i ysbrydoli a llunio profiadau

cadarnhaol o fudiad y myfyrwyr pan fyddant yn ieuengach. Gall ein harweinwyr y dyfodol wedyn dyfu a datblygu wrth iddynt fynd i mewn i wahanol ffurfiau o addysg a chyflogaeth.

Bydd Tîm Swyddogion UCM Cymru'n gweithio gyda chi i wneud y canlynol:

- Datblygu gallu, cysylltiadau a chefnogaeth ar gyfer eich ymgyrchoedd drwy weithio gydag ysgolion, colegau a fforymau ieuenctid lleol ar weithgareddau ymgyrchu
- Datblygu maniffestos rhanbarthol/lleol yn barod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad
- Cyfrannu'n effeithiol at Grŵp Llywio Ymgysylltu ag Ieuenctid Llywydd y Cynulliad
- Cyd-drefnu perthynas weithio ag ysgolion a cholegau ynghylch gwirfoddoli neu gyfleoedd eraill i fyfyrwyr y gall pobl ifanc ymgymryd â hwy.
- Gweithredu canlyniadau ymgynghoriad Pleidlais yn 16

Cysylltydd Staff UCM Cymru:

Steve Coole, Cyfarwyddwr

stephen.coole@nus-wales.org.uk

07971 653 448

Cysylltyddion PGC UCM Cymru:

Robiu Salisu – robiu.salisu@nus-wales.org.uk
Sarah Lynn – sarah.lynn@nus-wales.org.uk
Ryan Davies – ryan.davies@nus-wales.org.uk
Akosva Darko – akosva.darko@nus-wales.org.uk

Yr hyn bydd fy undeb myfyrwyr yn ei wneud....

Ymgysylltiad ieuenctid a chyfleoedd i fyfyrwyr

Adolygiad o AU (Adolygiad Diamond)

Bwriad y strategaeth hon yw sicrhau y caiff llais myfyrwyr ei uchafu yn yr adolygiad eang o gyllido myfyrwyr ac addysg uwch a dylanwadu ar y farn wleidyddol cyn etholiadau'r Cynulliad 2016 er mwyn mabwysiadu polisïau i hybu achos myfyrwyr. Mae Adolygiad Diamond yn edrych ar ystod eang o feysydd, nid yn unig lefel y ffioedd dysgu a delir gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, sy'n cynnwys polisi ehangu mynediad, cyllid AU, cyllid ôlraddedigion, trefniadau cyllido trawsffiniol, rôl CCAUC a dyled myfyrwyr.

Mae gan UCM Cymru gynrychiolydd ar y panel adolygu ac rydym wedi cyflwyno ein hymateb sy'n cynnwys manylion o'n barn ar y system bresennol o gyllido AU a chyllid myfyrwyr. Ynddo, rydym wedi cynnig pum maes i'w gwarchod (yn fras): 1) Amddiffyn cyllido traws-ffiniol, 2) Yr angen am fwy o gyllido i gynorthwyo myfyrwyr â chostau byw, 3) System gyllido ar gyfer ôl-raddedigion a dysgwyr rhan-amser sy'n gynaliadwy a hygyrch, 4) Mwy o amddiffyniad i fyfyrwyr rhyngwladol a 5) Amddiffyn cyllido ar gyfer addysg Gymraeg ôl-16.

Dylid llunio'r strategaeth hon i ddwysáu'r pwysedd ar arweinwyr y sector sy'n rhan o'r adolygiad, yn ogystal â phwyso ar bleidiau gwleidyddol, i deilwra eu polisïau addysg er budd i fyfyrwyr. Dylid hefyd ceisio codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr adolygiad i gorff y myfyrwyr a cheisio barn i fireinio ei blaenoriaethau gydol y flwyddyn nesaf.

Polisïau Byw sy'n berthnasol i'r strategaeth hon

- Dim TGAU i chi
- Mae Cymru angen system fenthyciadau ar gyfer ôl-raddedigion
- Nid yw LCA a GDLlC yn ddigon da
- Cyllido Ôl-19
- Nid yw tocynnau bws yn fargen dda rhagor
- Adolygiadau cyllido a'r ffordd ymlaen
- Dychmygwch addysg; gawn ni symud pethau ymlaen
- Tlodi Myfyrwyr
- Amddiffyn yn erbyn y toriadau i Addysg Bellach yng Nghymru

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud fel mudiad

Ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol a dylanwadu arnynt i uchafu llais myfyrwyr ynghylch yr adolygiad o AU gydag etholiadau'r Cynulliad ar y gorwel. Mae'r adolygiad yn ystyried effeithiau ehangach ar ganlyniadau ac awgrymiadau posibl ar ddarpariaeth y tu hwnt i addysg uwch.

Mae angen i ni adfywio ac ehangu ein sylfaen ymchwil ar sefyllfa ariannol myfyrwyr ar ystod o lwybrau astudio ac arwain y ddadl gyhoeddus ar drefniadau cyllido addysg bellach ar gyfer y dyfodol: nid oedd hyn yn rhan ffurfiol o'r adolygiad. Mae angen i hyn gynnwys ymgyrchu dros ymrwymiad i greu polisi blaengar at gyllido colegau Cymru a dysgu i oedolion.

Drwy gydol y gwaith hwn, bydd UCM Cymru'n gwerthuso bodlonrwydd ymysg undebau myfyrwyr yn gyson â dulliau UCM Cymru o ymgynghori yn ystod y broses adolygu. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at y ffordd mae UCM Cymru'n rhyngweithio â'i aelodau.

Bydd UCM Cymru hefyd yn parhau i hybu llais myfyrwyr fel aelod o'r adolygiad.

Bydd Tîm Swyddogion UCM Cymru'n gweithio gyda chi i wneud y canlynol:

- Cynhyrchu set o flaenoriaethau i fyfyrwyr cyn etholiadau nesaf y Cynulliad sy'n esbonio diben yr adolygiad a'i bwysigrwydd i fyfyrwyr ar draws AU ac AB, ynghyd â gwaith adolygu i gasglu barn myfyrwyr er mwyn cynorthwyo ein gwaith dylanwadu fel mudiad
- Sicrhau y caiff ein gofynion maniffesto o ran yr adolygiad eu derbyn gan bleidiau gwleidyddol yng Nghymru
- Ymchwil i, a datblygu ymgyrch am gynllun cyllido blaengar ar gyfer addysg bellach ac ôl-19 yng Nghymru (yn ogystal â diogelwch ar gyfer materion lles fel gofal plant a thrafnidiaeth)
- Cael ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu system gyllido / fenthyciadau gymharol yng Nghymru ar gyfer dysgwyr ôlraddedig i sicrhau cydraddoldeb â myfyrwyr Seisnig.

Cysylltydd Staff UCM Cymru:

Graham Henry, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus

graham.henry@nus-wales.org.uk

07970 296 538

Cysylltyddion PGC UCM Cymru:

Lydia Richardson **–** Lydia.richardson@nus-wales.org.uk
Luke Jones – luke.jones@nus-wales.org.uk
Steffan Bryn Jones – steffan.bryn-jones@nus-wales.org.uk
Carmen Ria Smith – carmen.ria-smith@nus-wales.org.uk

Yr hyn bydd fy undeb myfyrwyr yn ei wneud....

Adolygiad o AU (Adolygiad Diamond)

Wise Cymru

Nod Wise Cymru yw hyrwyddo rhoi grym i fyfyrwyr ledled Cymru, mewn addysg uwch a phellach i ymgysylltu â'r strwythurau a'r prosesau sy'n eu galluogi i fynd ati i ffurfio a gwella ansawdd eu profiad academaidd mewn partneriaeth â'u sefydliadau. Caiff ei ariannu gan nifer o bartneriaid allweddol, gan gynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA), naw sefydliad addysg uwch a Llywodraeth Cymru (LlC). Ymhlith partneriaid prosiect Wise Cymru hefyd mae Prifysgolion Cymru (PC), yr Academi Addysg Uwch (AAU), Colegau Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC).

Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar sefydlu Wise Cymru ar sail ariannol gynaliadwy a datblygu'r prosiect ymhellach i sicrhau bod ganddo bresenoldeb mwy gweithredol a pherthnasol ar gampysau. Bydd hyn yn cynnwys cynnig cymorth ymarferol i undebau myfyrwyr a sefydliadau i ddatblygu strwythurau partneriaeth yn well – ar y cyd ag ariannwyr allweddol – ac ehangu ystod y cymorth hwnnw fel ymateb i anghenion undebau myfyrwyr a sefydliadau y tynnwyd sylw atynt yng ngwaith 2014-2015.

Yn fwy uniongyrchol, amcanion y prosiect fydd sefydlu model cyllido mwy hirdymor er mwyn cael cynnydd yn lefel y cyllid ac i gyflwyno lefel barhaol a chynaliadwy o gymorth staff i gynorthwyo meysydd newydd o waith.

Polisïau Byw sy'n berthnasol i'r strategaeth hon

- Cynrychioli'r cynrychiolwyr mewn AB
- Arolwg Llais Dysgwyr mewn AB
- Gweithio mewn Partneriaeth mewn AB

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud fel mudiad

Mae casglu a chyfathrebu enghreifftiau o arfer gorau yn y prosiect yn rhywbeth sydd o werth mawr i undebau myfyrwyr a sefydliadau. Bydd UCM Cymru hefyd yn bwriadu creu presenoldeb cyson ar bob campws sy'n cyfranogi, cyfarfod â Dirprwy Is-gangellorion ac undebau myfyrwyr.

Rhan fawr o'r gwaith eleni fydd ehangu ystod gwaith Wise Cymru ynghylch cynorthwyo undebau myfyrwyr i ymgorffori meysydd newydd o waith ar gyfer 2015-2016 a lansio Rhwydwaith Staff AU a chit adnoddau Canllawiau Partneriaeth.

Bydd datblygu hyb ar wefan i fod yn ffynhonnell gyfoes, er mwyn i undebau myfyrwyr a myfyrwyr ddysgu am greu perthnasau partneriaeth effeithiol, yn graidd i uno elfennau'r prosiect a chysylltu undebau myfyrwyr a sefydliadau o bob rhan o'r wlad.

Bydd UCM Cymru hefyd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n manylu gweithgareddau ac effaith y prosiect erbyn mis Hydref a bydd yn cynnwys asesiad effaith ar gyfer pob maes gwaith.

Bydd Tîm Swyddogion UCM Cymru'n gweithio gyda chi i wneud y canlynol:

- Cynhyrchu adroddiadau ansawdd blynyddol a/neu gyflwyniadau myfyrwyr gyda phwyslais ar gynorthwyo undebau nad ydynt wedi cwblhau un eto
- Cynnal cynhadledd y cynrychiolwyr cwrs a'r gynhadledd bartneriaeth
- Creu cylchlythyron "arfer gorau" ar sefydliadau a'u cyhoeddi ar hyb ar-lein
- Datblygu gwaith ymgysylltu myfyrwyr yn eich sefydliad sy'n cynnwys o leiaf dau ymweliad ymgynghori'r flwyddyn â phob sefydliad.

Cysylltydd Staff UCM Cymru:

Heather Ferguson, Ymgynghorydd Partneriaeth Myfyrwyr

heather.ferguson@nus-wales.org.uk

07811 370 608

a

Jessica Rumble

jessica.rumble@nus-wales.org.uk

07880 033 906

Cysylltyddion PGC UCM Cymru:

Lydia Richardson – Lydia.richardson@nus-wales.org.uk
Robiu Salisu – robiu.salisu@nus-wales.org.uk
Carly Stewart – carly.stewart@nus-wales.org.uk

Yr hyn bydd fy undeb myfyrwyr yn ei wneud....

Wise Cymru

Cynllun Gwaith – cysylltu â'r aelodaeth

Bydd y cynllun gwaith yn mynegi sut mae UCM Cymru'n gweithio gydag undebau myfyrwyr i wella bywyd myfyrwyr. Bydd UCM Cymru ac undebau myfyrwyr yn trefnu eu gwaith mewn ffordd sy'n sicrhau dealltwriaeth dda a chyfathrebu dwy-ffordd - Bydd blaenoriaethau lleol yn golygu lobïo cenedlaethol a bydd trefnu cenedlaethol yn creu newid lleol. Bydd y cynllun gwaith yn creu sylfaen i UCM Cymru a myfyrwyr; bydd undebau'n mynegi cyd-effaith a chyd-werth mudiad y myfyrwyr.

Polisïau Byw sy'n berthnasol i'r strategaeth hon

- Lleoliad Digwyddiadau UCM Cymru
- Cymru, nid dim ond Lloegr

Yr hyn sydd angen i ni ei wneud fel mudiad

Cyd-gytuno a chyd-weithredu ar flaenoriaethau undebau myfyrwyr ac UCM Cymru drwy gynllun gwaith 2015/16. Er mwyn asesu ein cynnydd, bydd UCM Cymru'n datblygu arolwg barn bach i fesur canfyddiad yr aelodaeth o UCM Cymru yn ogystal ag arolwg ar wahân i fesur safbwynt allanol o fudiad cyfan y myfyrwyr.

Ynghylch ein gwaith ymgyrchu a dylanwadu, bydd datblygu cynghreiriau, rhwydweithiau a bordydd crwn i wella ac i ymgorffori blaenoriaethau UCM Cymru ac undeb myfyrwyr yn system addysg a chymdeithas Cymru drwy rannu'r cynllun gwaith, yn hanfodol i ddatblygu ein gallu a'n hygrededd fel mudiad a arweinir gan fyfyrwyr.

Bydd UCM Cymru hefyd yn gweithio gydag undebau myfyrwyr i gofnodi eu heffaith mewn modd effeithiol, gan ddefnyddio'r cynllun gwaith fel sail i gofnodi holl effaith mudiad y myfyrwyr yng Nghymru ar gyfer 2015/16.

Yn olaf, bydd UCM Cymru'n sicrhau bod ei brif ddigwyddiadau'n symud o gwmpas y wlad gymaint ag y bo'n ymarferol bosibl. Gan weithio gydag UCMDU, byddwn hefyd yn cynorthwyo undebau myfyrwyr sy'n dymuno mynychu digwyddiadau'r DU drwy ystyried ceisiadau cymorth penodol gan undebau myfyrwyr.

Bydd Tîm Swyddogion UCM Cymru'n gweithio gyda chi i wneud y canlynol:

- Cynhyrchu 8 cynllun gwaith wedi'u personoli ar gyfer undebau myfyrwyr AU i greu synergedd rhwng strategaethau lleol a gwaith cenedlaethol a wneir gan UCM Cymru
- Cynhyrchu 2 gynllun gwaith wedi'i bersonoli: 1 ar gyfer undebau myfyrwyr AB ar bolisïau penodol o gynhadledd UCMC ac 1 ar gyfer prentisiaid a ddatblygir ar y cyd â CGyP.
- Gwella ein perthynas waith fel undebau myfyrwyr ac UCM Cymru.
- Caiff strategaethau galluogi UCM Cymru a blaenoriaethau undebau myfyrwyr eu hadlewyrchu a/neu eu cydnabod yn o leiaf 1 o'r strategaethau partneriaeth dysgu rhanbarthol – First Campus (De Ddwyrain Cymru), Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarth y Gogledd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Canolbarth a'r De-orllewin
- Casglu straeon effaith oddi wrth undebau myfyrwyr ar sail y cynllun gwaith

Cysylltydd Staff UCM Cymru:

Steve Coole, Cyfarwyddwr

stephen.coole@nus-wales.org.uk

07971 653 448

Cysylltyddion PGC UCM Cymru:

Lydia Richardson **–** Lydia.richardson@nus-wales.org.uk
Robiu Salisu – robiu.salisu@nus-wales.org.uk
Siôn Davies – sion.davies@nus-wales.org.uk

Yr hyn bydd fy undeb myfyrwyr yn ei wneud....

Cynllun Gwaith – cysylltu â'r aelodaeth

Digwyddiadau UCM Cymru i'w cadarnhau

Bydd UCM Cymru yn eich cadw'n gyfoes ynglŷn â digwyddiadau sy'n dod yn ogystal ag unrhyw ddyddiadau ychwanegol sydd gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys y diweddaraf a newyddion ynglŷn â digwyddiadau UCM DU.

Medi

10 – Cyfarfod PGC DU

Hydref

8 – Cyfarfod cyntaf PGC UCM Cymru (i'w gadarnhau)

9 – Cyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori'r Aelodaeth (i'w gadarnhau)

28/29 Cynadleddau Maes UCM DU

Tachwedd

11 – Sgiliau AB

18 – Cynhadledd Maes UCM Cymru

26 – UMau Lleol - Cymru

Rhagfyr

11 – Cyfarfod PGC UCM Cymru (i'w gadarnhau)

14/21 – Agor Cynigion ar gyfer Cynadleddau Rhyddhad Cymru ac enwebiadau ar gyfer Swyddog y Menywod (i'w gadarnhau).

Ionawr

4 – Agor Cynigion ac Enwebiadau ar gyfer Cynhadledd UCM Cymru (i'w gadarnhau)

22 – Dyddiad cau Cynigion ar gyfer Cynadleddau Rhyddhad Cymru ac enwebiadau ar gyfer Swyddog y Menywod.

Chwefror

4 – UMau Lleol - Cymru.

5 – Cyfarfod PGC UCM Cymru Dyddiad cau cynigion ac enwebiadau'r Gynhadledd.

16 – 19 – Wythnos Rhyddhad (LHDT/MagA/Croenddu/Menywod/Iaith Gymraeg).

Mawrth

8/9 – Cynhadledd UCM Cymru

Ebrill

19/21 – Cynhadledd UCM DU, Brighton.

Mai

5/6 – PGC a Grŵp Cynghori Aelodaeth UCM Cymru